# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Mawrth 2022

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Joel James AS.

Roedd James Evans AS yn bresennol yn y cyfarfod, yn dirprwyo ar ran Joel James AS.

## 2 Sesiwn dystiolaeth - P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Louise Roberts o'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), a Jennifer Molloy, rhiant sydd wedi bod mewn gofal.

## 3 Sesiwn dystiolaeth - P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Carter, Barnardo's Cymru, De-ddwyrain Cymru; Liz Baker, Barnardo's Cymru, Caerdydd a'r Fro; Sharon Lovell, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol; a Daljit Kaur Morris, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol.

## 4 Deisebau newydd

### 4.1 P-06-1235 Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd, a chytunodd i ysgrifennu at y cyrff a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru, yn ceisio ymateb i'r pryderon a'r cwestiynau a godwyd gan y deisebydd ynghylch ansawdd a hyd a lled y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir i bobl yng Nghymru; a

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd a gwasanaethau niwroadsefydlu yng ngogledd Cymru.

### 4.2 P-06-1248 Dylid newid y Rheolau Sefydlog a'r meini prawf ar gyfer derbyn deisebau.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Llywydd, sy'n penderfynu ar ffurf briodol deisebau cyhoeddus a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 23, er mwyn gofyn am ei hymateb i'r ddeiseb.

### 4.3 P-06-1255 Sicrhau bod tadau/partneriaid geni yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad a gofal drwy gydol y cyfnod amenedigol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law, a nododd fod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y mater o gynnwys tadau drwy gydol y cyfnod amenedigol. Nododd hefyd fod y

deisebydd wedi croesawu'r cyfle i fod yn rhan o lunio gwaith yn y dyfodol a dylanwadu arno. Yn sgil hynny, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd am godi'r mater pwysig hwn ac am ymgyrchu i sicrhau newid ar ran eraill, a chaeodd y ddeiseb.

### 4.4 P-06-1256 Cynnal refferendwm ar Gymru yn dod yn Genedl Noddfa

Ailadroddodd y Pwyllgor y cynigion diffuant o gymorth a gafwyd gan bobl Cymru, sy'n sefyll mewn undod â phobl Wcráin, a'r gefnogaeth gref a fynegwyd gan Aelodau o'r Senedd, gan atgyfnerthu'r ffaith bod Cymru'n dymuno croesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Nododd y Pwyllgor fod ymgynghoriad eisoes wedi'i gynnal ar y cynllun Cenedl Noddfa, a bod y cynllun hwnnw wedi ennill cefnogaeth eang. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 4.5 P-06-1257 Lleihau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo ar ystadau preifat

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law, a chytunodd i ysgrifennu eto at y Gweinidog, yn gofyn am amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd, ac yn gofyn hefyd a oes gan awdurdodau lleol bŵer i sefydlu eu cwmnïau cynnal a chadw eu hunain, neu a fyddai modd rhoi'r pŵer iddynt wneud hynny.

### 4.6 P-06-1259 Gwahardd bagiau baw cŵn nad ydynt yn fioddiraddiadwy

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law, gan dderbyn safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod yn ymdrin â'r mater fel rhan o'i dull gweithredu ar gyfer lleihau sbwriel. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd a chaeodd y ddeiseb.

### 4.7 P-06-1260 Dylid dileu’r angen am basys Covid ar gyfer pob digwyddiad a gweithgaredd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law. Cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb, gan nad oes angen pasys COVID bellach ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau.

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

5.1 P-06-1224 Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl

Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod yr holl argymhellion a wnaed yn ei adroddiad naill ai wedi’u derbyn neu wedi’u derbyn mewn egwyddor. Llongyfarchodd y Pwyllgor y deisebydd ar y canlyniad llwyddiannus a gafwyd, a chytunodd i gau’r ddeiseb.

### 5.2 P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig

Trafododd y Pwyllgor hanes y ddeiseb. Yng ngoleuni’r ddadl a gafwyd eisoes yn y Cyfarfod Llawn, ynghyd â thrafodaethau’r Pwyllgor a’r dadleuon a gafwyd yn y llysoedd, cytunodd y Pwyllgor nad oedd modd cymryd y ddeiseb ymhellach, a chytunodd i gau’r ddeiseb.

### 5.3 P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law, yn ogystal â hanes y ddeiseb. Yng ngoleuni’r ddadl a gafwyd eisoes yn y Cyfarfod Llawn, ynghyd â thrafodaethau’r Pwyllgor a’r dadleuon a gafwyd yn y llysoedd, cytunodd y

Pwyllgor nad oedd modd cymryd y ddeiseb ymhellach, a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### 5.4 P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod, cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati)

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law.
Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog, yn gofyn pryd y bydd penderfyniad yn debygol o gael ei wneud ar y mater hwn.

### 5.5 P-06-1217 Agor canolfannau / clinigau meddygol un stop Covid Hir

Cytunodd y Pwyllgor, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion llawer o bobl â COVID hir, ei bod yn amlwg nad yw'r gwasanaethau hyn yn briodol i bawb, fel y mae'r deisebydd wedi'i nodi.
Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog, gan awgrymu y gallai fod yn brofiad gwerthfawr i Lywodraeth Cymru pe bai'n cwrdd â'r deisebydd a chleifion eraill i wrando ar eu pryderon a'u hawgrymiadau. Nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol creu cyswllt rhwng y deisebydd a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Trawsbleidiol ar COVID Hir.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod y dystiolaeth - P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd. Bydd yn cymryd tystiolaeth bellach gan awdurdodau lleol, *Voices from Care Cymru* a rhieni sydd wedi bod mewn gofal.